Planning Inspectorate
Arolygiaeth Gynllunio

**Cais gan Uniper UK am orchymyn yn rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah (EN010166)**

**Agenda ar gyfer gwrandawiad caffael gorfodol 1 (CAH1):**

Darparwyd hysbysiad ynghylch dyddiad, amser, a lleoliad y gwrandawiad caffael gorfodol 1 hwn (CAH1) yn atodiad C i lythyr Rheol 8 yr Awdurdod Archwilio (ExA) [PD-010] dyddiedig 20 Ionawr 2026.

| Gwrandawiad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| **Gwrandawiad caffael gorfodol 1 (CAH1)** | **Dydd Mercher 18 Mawrth 2026**<br>**Gwrandawiad yn dechrau am 1400 o'r gloch**<br>Cofrestru a seddau ar gael yn y lleoliad o 1330 o'r gloch a phroses gofrestru rithwir o 1345 o'r gloch | Gwesty'r Village - Chester St David's<br>Parc Dewi Sant, Ewloe,<br>Glannau Dyfrdwy CH5 3YB<br>ac<br>yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams<br>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu rhoi o flaen llaw i'r rhai sydd wedi rhag-gofrestru |

**Agenda**

**1. Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawiad**

**2. Diben y gwrandawiad caffael gorfodol**

**3. Y prif faterion**

| | |
|---|---|
| 3.1. | **Achos yr Ymgeisydd dros Gaffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP)**<br>• Gofynnir i'r Ymgeisydd gyflwyno a chyfiawnhau ei achos dros gaffael gorfodol a meddiant dros dro trwy fynd i'r afael â'r pwyntiau canlynol:<br>• Amlygu'r pwerau a geisir a'u dibenion.<br>• Darpariaethau Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft perthnasol.<br>• Sut byddai'r profion statudol a pholisi perthnasol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (gan gynnwys a122, a123, a127 ac a138) a chanllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol sy'n ymwneud â chaffael gorfodol yn cel eu bodloni.<br>• Strategaeth / meini prawf yr Ymgeisydd ar gyfer penderfynu p'un ai ceisio pwerau ar gyfer caffael tir yn orfodol, caffael hawliau'n orfodol neu feddiannu tir dros dro.<br>• Ystyried dewisiadau amgen yn lle caffael gorfodol / meddiant dros dro.<br>• Ystyriaethau hawliau dynol. |
| 3.2. | **Diweddariad yr Ymgeisydd o ganlyniad i'r cais am gael gwneud newid sydd i ddod**<br>• Gofynnir i'r Ymgeisydd esbonio goblygiadau'r cais am gael gwneud newydd sydd i ddod o ran y darpariaethau caffael gorfodol a meddiant dros dro a geisir a sut maen nhw'n bodloni profion Deddf Cynllunio 2008. |
| 3.3. | **Materion penodol i safle**<br>• Gofynnir i'r Ymgeisydd roi diweddariad ar gynnydd trafodaethau gydag Unigolion yr Effeithir Arnynt (AP) a'r amserlen ar gyfer eu cwblhau.<br>• Gofynnir i Unigolion yr Effeithir Arnynt amlinellu'n fyr unrhyw bryderon sy'n weddill am gaffael gorfodol / meddiant dros dro mewn perthynas â'r tir y mae ganddynt fuddiant ynddo nad yw'r Ymgeisydd wedi mynd i'r afael â nhw.<br>• Bydd yr ExA yn gofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd ac Unigolion yr Effeithir arnynt ynglŷn â thrafodaethau a materion sy'n codi o gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar yn ymwneud â hawliau tir, oni bai y tynnwyd gwrthwynebiadau yn ôl. |
| 3.4. | **Ymgymerwyr Statudol**<br>• Gofynnir i'r Ymgeisydd: |

| | |
|---|---|
| | ○ Grynhoi unrhyw faterion sy'n weddill sy'n codi o gyflwyniadau gan Ymgymerwyr Statudol.<br>○ Crynhoi p'un a fyddai'r profion perthnasol ar gyfer arfer y pŵer yn unol ag a127 ac a128 Deddf Cynllunio 2008 yn cael eu bodloni pe na ddeuir i gytundeb gyda'r holl ymgymerwyr statudol.<br>• Bydd unrhyw Ymgymerwr Statudol neu gorff arall perthnasol sy'n bresennol ac sy'n dymuno sôn am wrthwynebiad neu fater a godwyd sy'n berthnasol i effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ymgymeriad, ei gyfarpar neu ei dir yn cael ei wahodd i wneud cyflwyniadau llafar i'r ExA.<br>• Fe allai'r ExA ofyn cwestiynau i'r Ymgymerwr Statudol neu gorff arall perthnasol, a'r Ymgeisydd, ynglŷn â materion sy'n codi o gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar. |
| **3.5.** | **Tir y Goron**<br>• Bydd yr ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd (ac unrhyw awdurdodau'r Goron sy'n bresennol) roi diweddariad ar faterion sy'n ymwneud â thir y Goron ac a135 Deddf Cynllunio 2008. |
| **3.6.** | **Cyllid**<br>• Bydd yr ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd grynhoi'r Datganiad Cyllid a rhoi gwybod am unrhyw ddiweddariadau iddo. |

**4. Adolygu materion, camau gweithredu sy'n codi a'r camau nesaf**

**5. Unrhyw fater arall**

**6. Diwedd y gwrandawiad**

**Diben Gwrandawiad Caffael Gorfodol (CAH)**
Prif ddibenion y gwrandawiad caffael gorfodol yw:

- Galluogi'r ExA i archwilio achos yr Ymgeisydd dros gaffael tir neu hawliau dros dir yn orfodol a / neu feddiannu tir dros dro.
- Cyflawni dyletswydd yr ExA i glywed unrhyw Unigolion yr Effeithir Arnynt sy'n gofyn am gael eu clywed.
- Galluogi'r ExA i ystyried p'un a fodlonwyd y profion cyfreithiol a pholisi sy'n berthnasol i gynigion caffael gorfodol / meddiant dros dro.
- Mynd i'r afael ag unrhyw faterion cysylltiedig.

**Mynychwyr**
Byddai'n ddefnyddiol i'r ExA pe gallai'r partïon canlynol fynychu'r gwrandawiad hwn.

- Yr Ymgeisydd
- Unrhyw Unigolion yr Effeithir Arnynt – sy'n dymuno trafod materion caffael gorfodol / meddiant dros dro.
- Ymgymerwyr Statudol – gan gynnwys Cyngor Sir y Fflint (sef yr awdurdod llifogydd lleol a phriffyrdd lleol arweiniol).
- Tata
- Unrhyw awdurdodau'r Goron – sy'n dymuno trafod materion yn ymwneud â thir y Goron.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na fydd partïon eraill yn gallu cyfrannu. Gwahoddir yr holl Bartïon â Buddiant i fynychu a gwneud sylwadau llafar ar y materion a amlinellir yn yr agenda, yn amodol ar allu'r ExA i reoli'r gwrandawiad.

Mae'r ExA wedi ceisio darparu digon o fanylion i gynorthwyo'r partïon i baratoi ar gyfer y gwrandawiad. Mae'r manylion a amlinellir uchod yn ddangosol ac mae'n bosibl y bydd angen i'r ExA gynnwys eitemau agenda ychwanegol neu ddiwygio'r drefn yr ymdrinnir â'r eitemau.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno mynychu'r gwrandawiad wyneb yn wyneb, ond nad yw eisoes wedi rhoi gwybod i dîm yr achos am hyn, wneud hynny cyn gynted â phosibl.

Bydd y digwyddiad yn cael ei ffrydio'n fyw a bydd dolen ar gyfer gwylio'r ffrwd fyw yn cael ei phostio ar dudalen we'r prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yn agosach i ddyddiad y gwrandawiad. Felly, gall Partïon â Buddiant ac aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno arsylwi'r gwrandawiad weld y gwrandawiad a gwrando arno gan ddefnyddio'r ffrwd fyw, neu wylio a gwrando ar y recordiad ar ôl iddo orffen.

**Y broses gofrestru**
Bydd partïon sydd wedi cofrestru i siarad (wyneb yn wyneb ac yn rhithwir) yn cael neges e-bost sy'n cynnwys cyfarwyddiadau ymuno yn fuan cyn y gwrandawiad. Bydd y neges e-bost hon yn cynnwys dolen i'r digwyddiad rhithwir ar Microsoft Teams, a rhif ffôn os bydd angen iddynt gymryd rhan dros y ffôn. Er mwyn i'r gwrandawiad allu dechrau'n brydlon am **1400 o'r gloch**, dylai'r rhai sy'n mynychu'n rhithwir ymuno am **1345 o'r gloch** i sicrhau bod yr holl fynychwyr rhithwir yn gallu cwblhau'r broses gofrestru mewn da bryd.

**Y weithdrefn mewn gwrandawiad mater penodol**

Yn ôl y canllawiau o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010, mater i'r ExA yw archwilio, profi ac asesu'r dystiolaeth trwy ofyn cwestiynau uniongyrchol i'r rhai sy'n gwneud sylwadau llafar mewn gwrandawiadau. Bydd holi yn y gwrandawiad yn cael ei arwain gan yr ExA. Bydd yr ExA yn caniatáu i rywun sy'n rhoi tystiolaeth gael ei groesholi gan rywun arall dim ond os yw'n penderfynu bod hynny'n angenrheidiol i sicrhau bod sylwadau'n cael eu profi'n ddigonol neu fod Parti â Buddiant wedi cael cyfle teg i gyflwyno ei achos.

Bydd y gwrandawiad yn gorffen cyn gynted ag y bydd yr ExA yn penderfynu bod pawb sy'n bresennol wedi lleisio'i farn a bod yr holl faterion wedi derbyn sylw. Os oes materion ychwanegol i'w trin, efallai y bydd angen gohirio rhai materion i gwestiynau ysgrifenedig. Dylai'r dystiolaeth a gyflwynir ar lafar yn CAH1 gael ei chynnwys mewn cyflwyniadau ôl-wrandawiad a'i chyflwyno erbyn **Dyddiad Cau 4** (31 Mawrth 2026).

**Y Gymraeg**

Rydym yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg yn ystod yr archwiliad. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael mewn unrhyw wrandawiadau a gynhelir, er mwyn caniatáu i'r rhai sy'n bresennol wneud cyfraniadau yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.